| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Cynllunio** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **15 Gorffennaf 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Cyng. David Smith, Parth y Cyhoedd**<br>**Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lara Griffiths, Uwch Swyddog Cynllunio** |
| **Teitl:** | **Briff Datblygu Safle Drafft: Cae Ffyddion, Dyserth** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Briff Datblygu Safle drafft ar gyfer y safle tai a ddyrannwyd, Cae Ffyddion yn Nyserth. Mae'n cynnwys y brif ddogfen ddrafft, Atodiad I, y ddogfen sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol, Atodiad II, a'r ddogfen sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Atodiad III.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i gynnal ymgynghoriad ar y Brîff Datblygu Safle drafft (Prif Ddogfen) a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol cysylltiedig gyda chyrff statudol a'r cyhoedd. Os caiff ei gymeradwyo, bydd y Brîff Datblygu Safle yn cael ei ddefnyddio wrth benderfynu ar unrhyw gais cynllunio ar y safle.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n cytuno ar y Briff Datblygu Safle drafft ar gyfer safle Cae Ffyddion yn Nyserth a'r ddogfen sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) sy'n dod gydag o ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Y briff datblygu safle hwn yw un o gyfres o nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sy'n ymhelaethu ar bolisïau neu egwyddorion datblygu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Ddinbych 2006-2021 ar gyfer dyraniadau safle unigol mewn fformat sy'n ceisio arwain y broses, dyluniad ac ansawdd datblygiadau newydd.

4.2 Nid yw nodiadau CCA y Cyngor yn rhan o'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd. Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cadarnhau y gellir trin CCAau fel ystyriaethau cynllunio perthnasol, ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth ddilynol yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), wrth i'r ACLl,

Arolygwyr Cynllunio a Llywodraeth Cymru benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau.

4.3 Mae'r safle Cae Ffyddion yn Nyserth yn ymestyn i tua 3.4 ha o dir a leolir ar gwr gorllewinol Dyserth, ger yr A547. Mae'r safle wedi ei ddyrannu ar gyfer tai yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych (CDLl) a fabwysiadwyd ac mae ym mherchnogaeth y Cyngor. Cafodd y safle ei ddatgan yn warged a chytunwyd i waredu'r safle ar gyfer datblygiad preswyl yng Nghyfarfod y Cabinet ar 28 Hydref, 2014.

4.6 Dwy brif elfen y ddogfen yw: Lleoliad y safle a disgrifiad, polisïau cynllunio lleol, cyfyngiadau posibl ac ystyriaethau dylunio. Mae nifer sylweddol o adroddiadau cefndir ac astudiaethau a gomisiynwyd gan y Gwasanaethau Eiddo wedi cyfarwyddo’r brîff datblygu drafft a byddant ar gael yn ystod y broses dendro. Mae cyfran o'r safle i'r ffin ddeheuol yn cael ei gadw gan y Cyngor i ddatblygu ar gyfer tai ei hun, mae hyn yn cael ei ddangos yn y briff drafft.

4.7 Byddai'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus am o leiaf 8 wythnos a rhagwelir y bydd yn dechrau ym mis Gorffennaf 2015. Ymgynghorir gyda holl Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned ynghyd â budd-ddeiliaid allweddol a phobl sydd wedi cofrestru ar y gronfa ddata CDLl. Bydd copïau caled o'r dogfennau hyn ar gael ym mhob llyfrgell a siop un alwad yn ogystal ag ar wefan Sir Ddinbych. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio gyda chais tebygol i fabwysiadu’r ddogfen gyda newidiadau arfaethedig o ganlyniad i'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus.

4.8 Bydd swyddogion yn cynnal digwyddiad arddangosfa yn Llyfrgell Dyserth (bydd manylion yn cael eu cyhoeddi mor fuan â phosibl) yn ogystal â’r prif elfennau o gynnal ymgynghoriad cyhoeddus gyda'r cyhoedd ac ymgyngoreion statudol.

4.9 Mae'r ddogfen ddrafft yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, Atodiad II, a fydd yn destun ymgynghori gydag ymgyngoreion statudol dros yr un cyfnod o amser.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Blaenoriaethau Corfforaethol 2012-17. Bydd y briff datblygu safle yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y blaenoriaethau corfforaethol canlynol:

- *Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da* trwy ddarparu fframwaith ar gyfer cyflwyno cymysgedd o ddatblygiadau tai newydd, gan gynnwys cyfran o dai fforddiadwy.

- *Moderneiddio'r Cyngor* i gyflawni effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid drwy sicrhau bod dogfennau canllawiau cynllunio yn gyfredol

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Ni ragwelir y bydd cymeradwyo'r ddogfen brîff datblygu safle drafft ar gyfer ymgynghori gyda chyrff statudol a'r cyhoedd yn creu unrhyw gostau ychwanegol.

6.2 Bydd cael briff datblygu safle a fabwysiadwyd yn amlinellu ystyriaethau datblygu allweddol a manteision cymunedol angenrheidiol yn helpu i sicrhau bod y safle yn cael ei ddatblygu mewn modd amserol i'r budd mwyaf i'r gymuned leol. Bydd y gwaith o ddatblygu cymysgedd o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy i bobl leol yn helpu i ddiwallu anghenion tai pobl Dyserth.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Y bwriad yw cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y canllawiau sy'n ymwneud â datblygiad ar safle Cae Ffyddion yn Nyserth. Nid yw cynnwys y Brîff Datblygu yn gosod polisi ond mae'n atgyfnerthu, ac yn rhoi canllawiau penodol i safle ar y polisïau CDLl perthnasol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys pob polisi, wedi cael AEC llawn cyn ei fabwysiadu.

**8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Trafodwyd cynnwys ac egwyddorion datblygu yng nghyfarfod y Grŵp Llywio Aelodau Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 (CDLl) ar 21 Hydref 2014. Gofynnwyd am gyfraniadau hefyd oddi wrth Gynghorwyr Sir Dyserth, a chydweithwyr o'r Gwasanaethau tai, Priffyrdd, Ecoleg, Archaeoleg a'r Gwasanaethau Eiddo.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dylai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r canllawiau terfynol gael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae'r Briff Datblygu Safle yn gosod gweledigaeth glir ar gyfer datblygu'r safle ar gyfer y dyfodol. Heb arweiniad clir ar gyfer y safle mae perygl na fyddai datblygiad cynaliadwy o ansawdd uchel, gyda'r cymysgedd priodol o ddefnyddiau a manteision cymunedol yn cael ei gyflawni.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).